Environment Agency
Asiantaeth yr Amgylchedd

pysgodfeydd mwy iach

Arweiniad i symud pysgod

Asiantaeth yr Amgylchedd ydym ni. Ein gwaith ni yw gofalu am eich amgylchedd chi, a'i wneud yn lle gwell – i chi, ac i genedlaethau'r dyfodol.

Eich amgylchedd yw'r aer a anadlwch, y dŵr a yfwch, a'r ddaear y cerddwch arni. Gan weithio gyda busnesau, y Llywodraeth a chymdeithas yn gyfan, rydym yn gwneud eich amgylchedd yn lanach ac yn iachach.

Asiantaeth yr Amgylchedd. Allan yn y maes, yn gwneud eich amgylchedd yn lle gwell.

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth yr Amgylchedd
Rio House
Waterside Drive, Aztec West
Almondsbury, Bristol BS32 4UD
Ffôn: 08708 506 506
E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk
www.environment-agency.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd o flaen llaw.
GEHO0310BSEU-E-E

Crynodeb

Mae stocio pysgod yn arf rheoli hanfodol. Gall ddod â nifer o fanteision i bysgodfa, gan gynnwys ychwanegu rhywogaethau newydd a chynyddu dalfeydd pysgotwyr. Fodd bynnag, mae risgiau'n gysylltiedig â stocio. Am y rheswm hwn, mae gennym reolau sy'n gwarchod eich pysgodfa a hefyd yr amgylchedd dyfrol ehangach.

Mae angen ein **caniatâd ysgrifenedig** arnoch i stocio unrhyw bysgod, silod mân neu wyau i mewn i unrhyw bysgodfa afon neu ddŵr llonydd yng Nghymru a Lloegr. Mae angen ein caniatâd ysgrifenedig arnoch yn ogystal i dynnu pysgod allan a defnyddio arfau pysgota ar wahân i wialen a llinyn.

Gallwch wneud cais am ganiatâd ar-lein, drwy'r post, ffacs neu e-bost. Argymhellwn eich bod yn trafod eich gwaith symud pysgod arfaethedig gyda'ch swyddog pysgodfeydd lleol cyn i chi wneud cais. Gallant roi cyngor a chyfarwyddyd ychwanegol i chi.

Anelwn at brosesu ceisiadau mewn 10 diwrnod gwaith, er ein bod yn gofyn i chi roi 20 diwrnod gwaith i ni.

Gall gymryd hyd yn oed mwy o amser na hynny os oes angen gwiriad iechyd pysgod neu os oes gan y dŵr statws cadwraeth.

Mae **gwiriadau iechyd pysgod** yn helpu i atal parasitiaid a chlefydau rhag ymledu. Mae gwiriadau'n orfodol ar gyfer safleoedd sydd yn y gorlifdir neu ble gall dŵr lifo i safle arall.

Fel rheol, nid yw gwiriad iechyd yn orfodol ar gyfer dyfroedd wedi'u hamgáu'n llwyr. Fodd bynnag, byddwn bob amser yn eich cynghori i drefnu bod un yn cael ei wneud – gall helpu i warchod eich pysgodfa.

Deallwch y pwysigrwydd o ddefnyddio cyflenwr ag enw da. Canfyddwch beth yw'r peryglon a sut i'w lleihau. Mae dulliau eraill o wella dalfeydd pysgotwyr. Darllenwch fwy am glefydau, cynefinoedd a dwyseddau stocio (gweler adran 8).

Er mwyn stocio **rhywogaethau anfrodorol** byddwch angen trwydded ILFA'n ogystal. Mae'r drwydded hon am ddim, ond gall gymryd deufis i'w phrosesu. Rhaid bod gennych y drwydded hon yn ei lle cyn gwneud cais i stocio'r pysgod hyn.

Os ydych yn gweithredu heb ganiatâd, rydych yn wynebu cael eich **erlyn** a chofnod troseddau, gyda dirwy o gymaint â £2,500.

Cewch y rhan fwyaf o'r wybodaeth rydych ei hangen yn y pecyn hwn:

1. Gwneud cais i gyflwyno pysgod.
2. Gwneud cais i dynnu pysgod allan neu ddefnyddio erfyn pysgota.
3. Anfon ceisiadau atom.
4. Cofrestrwch eich pysgodfa.
5. Peryglon stocio.
6. Gwiriadau iechyd ar gyfer pysgod.
7. Ble i brynu pysgod.
8. Rhagor o gyfarwyddyd a gwybodaeth.
9. Diheintiwch eich offer.
10. Mae pysgod anfrodorol angen trwydded arbennig.
11. Gwarchod y brithyll brown gwyllt.
12. Pwy i gysylltu â nhw.

Wedi'u cynnwys yn ogystal yn y pecyn hwn cewch ffurflenni cais er mwyn cyflwyno a thynnu pysgod. Mae Adrannau 1 i 3 yn egluro sut i gwblhau a dychwelyd y ffurflenni hyn. Gallwch lawrlwytho ffurflenni ychwanegol yn **www.efishbusiness.co.uk/formsandguides.** Gallwch ofyn am ffurflenni yn ogystal trwy alw ein **tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 08708 506 506**.

Am wybodaeth gyffredinol bellach, galwch y **Tîm Symudiadau Pysgod ar 01480 483968**.

Am wybodaeth leol, galwch **Wasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506** a gofyn am gael siarad â'ch swyddog pysgodfeydd lleol.

1 Gwneud cais i gyflwyno pysgod

Bydd angen ein caniatâd ysgrifenedig arnoch i gyflwyno unrhyw bysgod, silod mân ac wyau i mewn i unrhyw bysgodfa afon neu ddŵr llonydd yng Nghymru a Lloegr. Gelwir ef yn aml yn 'ganiatâd adran 30' ac mae'n ofyn cyfreithiol.

Byddwn yn rhoi caniatadau ar gyfer dyddiad neu ddyddiadau penodol, pysgodfa benodol a llwyth penodol o bysgod.

Siaradwch â ni yn gyntaf

Gofynnwch i ni am gyngor **cyn** i chi anfon y cais atom. Rydym yn falch i helpu ac rydych yn fwy tebygol o anfon yr holl wybodaeth rydym ei hangen. Galwch ein **tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 08708 506 506** a gofyn am gael siarad â'ch swyddog pysgodfeydd lleol.

Pa wybodaeth sy'n rhaid i chi ei hanfon?

Mae'r ffurflen gais (FR1) yn gofyn am wybodaeth:

- amdanoch chi – yr ymgeisydd;
- am y cyflenwr – os nad chi yw hwnnw;
- am y dŵr ble fyddwch yn cyflwyno'r pysgod;
- am y dyddiad rydych yn bwriadu cyflwyno'r pysgod;
- am y rhywogaeth o bysgod i'w chyflwyno;
- am darddle'r pysgod;
- am unrhyw gyfleuster dal dros dro – os cafodd y pysgod eu cadw, neu os cânt eu cadw, yn rhywle arall cyn eu cyflwyno;
- gwiriadau iechyd.

Sicrhewch eich bod yn llofnodi ac yn dyddio'r ffurflen.

Ynghylch y dŵr

Sicrhewch eich bod yn rhoi'r holl fanylion y gofynnir amdanynt.

Os gallwch, rhowch y cyfeirnod grid cenedlaethol i ni, os gwelwch yn dda. Gallwch gael hwn o'r Arolwg Ordnans yn **www.ordnancesurvey.co.uk/oswebsite** – unwaith eich bod ar eu gwefan, yr unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw teipio'r cod post neu enw'r lle i mewn i far chwiliad. O dan 'view maps online'. Bydd map yn ymddangos o'r ardal rydych ei heisiau. O dan y map fe gewch y cyfeirnod grid yn y fformat canlynol: TL 123 456.

Os nad allwch ddod o hyd i'r cyfeirnod grid cenedlaethol, gallwch atodi map. Dylai hwn fod wedi'i anodi'n glir i ddangos lleoliad y dŵr ble'r ydych eisiau cyflwyno pysgod.

Rhywogaethau o bysgod

Rhowch feintiau a phwysau os ydych yn gwybod beth ydynt. Os yw'r pysgod yn frithyll, sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i ni p'un ai ydynt yn rhai triploid (benywaidd anffrwythlon) neu ddiploid (brithyll brown cyffredin ffrwythlon).

Gwiriadau iechyd

Mae'r angen am wiriad iechyd yn dibynnu ar y lleoliad a'r math o safle rydych yn ei stocio. Gall trefnu i wneud gwiriad iechyd arafu'r broses o wneud cais. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw gwiriad iechyd yn ofynnol. Gweler adran 6 am fanylion.

Stociwyd yn llwyddiannus unwaith eto

2 Gwneud cais i dynnu pysgod allan neu ddefnyddio arf pysgota

Mae angen ein caniatâd ysgrifenedig arnoch i dynnu pysgod o ddyfroedd mewndirol neu i ddefnyddio arfau pysgota ar wahân i wialen a llinyn.

Fel rheol, byddwn yn rhoi'r caniatadau hyn ar gyfer dyddiad neu ddyddiadau penodol, safle penodol a rhywogaeth benodol. Rhaid i ni fod yn fodlon bod tynnu'r pysgod neu'r dasg a arfaethwch yn addas ac na fydd yn gwneud drwg i'r amgylchedd.

Siaradwch â ni yn gyntaf

Gofynnwch i ni am gyngor **cyn** i chi anfon y cais atom. Rydym yn falch i helpu ac rydych yn fwy tebygol o anfon yr holl wybodaeth rydym ei hangen. Galwch ein **tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 08708 506 506** a gofyn am gael siarad â'ch swyddog pysgodfeydd lleol.

Pa wybodaeth sy'n rhaid i chi ei hanfon?

Mae'r ffurflen gais (FR2) yn gofyn am fanylion ynghylch:

- yr ymgeisydd;
- y contractwr (os yw'n wahanol i'r ymgeisydd)
- y dŵr o ble fyddwch yn tynnu'r pysgod;
- y dyddiad rydych yn bwriadu tynnu'r pysgod;
- pa offer pysgota rydych yn bwriadu ei ddefnyddio;
- y rhywogaeth o bysgod i'w tynnu.

Sicrhewch eich bod yn llofnodi ac yn dyddio'r ffurflen.

Ynghylch y dŵr

Sicrhewch eich bod yn rhoi'r holl fanylion y gofynnir amdanynt.

Os gallwch, rhowch y cyfeirnod grid cenedlaethol i ni, os gwelwch yn dda. Gallwch gael hwn o'r Arolwg Ordnans yn **www.ordnancesurvey.co.uk/oswebsite** – unwaith eich bod ar eu gwefan, yr unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw teipio'r cod post neu enw'r lle i mewn i far chwiliad.o dan 'view maps online'. Bydd map yn ymddangos o'r ardal rydych ei heisiau. O dan y map fe gewch y cyfeirnod grid yn y fformat canlynol: TL 123 456.

Os nad allwch ddod o hyd i'r cyfeirnod grid cenedlaethol, gallwch atodi map. Dylai hwn fod wedi'i anodi'n glir i ddangos lleoliad y dŵr ble'r ydych eisiau cyflwyno pysgod.

Rhywogaethau o bysgod

Rhowch y meintiau a'r pwysau os ydych yn eu gwybod. Os nad ydych, rhowch ' fel y dalir'.

3 Anfon ceisiadau atom

Gallwch wneud cais am ganiatâd mewn nifer o ddulliau – ar-lein, drwy ffacs neu bost, neu drwy anfon copi wedi'i sganio i ni trwy e-bost o'ch cais wedi'i gwblhau. Byddwn yn cydnabod i ni dderbyn eich cais drwy'r post neu e-bost. Peidiwch ag anfon eich cais i mewn mwy na 10 wythnos o flaen llaw, os gwelwch yn dda.

Bydd eich swyddog pysgodfeydd lleol yn penderfynu p'un ai i gymeradwyo eich cais ai peidio. Rhowch o leiaf 20 diwrnod gwaith i ni brosesu eich cais. Fodd bynnag, anelwn at brosesu ceisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith.

Os ydych yn bwriadu symud pysgod i mewn i neu allan o safle â statws cadwraeth rhowch 28 diwrnod gwaith pellach i ni. Mae'r safleoedd hyn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs) a safleoedd Bywyd Gwyllt Sirol. Efallai bydd rhaid i ni ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol.

Am geisiadau i stocio pysgod (FR1) gallwn ofyn i chi wneud gwiriad iechyd pysgod. Bydd angen i hyn gael ei wneud cyn gallwn roi caniatâd.

Ar-lein

Ewch i **www.efishbusiness.co.uk** a chofrestru ar gyfer 'Econsenting'. Yna gallwch:

- wneud cais am a derbyn caniatadau ar-lein;
- dilyn trywydd cais;
- edrych ar hen geisiadau;
- newid y dyddiadau rydych eisiau stocio neu dynnu pysgod.

Drwy'r post, ffacs neu e-bost

Anfonwch ffurflenni wedi'u cwblhau i'r Tîm Symudiadau Pysgod:

Drwy'r post: Tîm Symudiadau Pysgod
Asiantaeth yr Amgylchedd
Bromholme Lane
Brampton
Huntingdon
Cambridgeshire
PE28 4NE

Drwy ffacs: 01480 483955
neu 01480 483026

Drwy e-bost: fmapplications@environment-agency.gov.uk
Rhaid i'ch e-bost gynnwys sgan o'ch cais wedi'i gwblhau sy'n cynnwys eich llofnod.

Beth fyddwch chi yn ei dderbyn

Os cymeradwyir eich cais, cewch ganiatâd ysgrifenedig oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd.

Er mwyn newid dyddiad cais

Dim ond diwrnod o rybudd sy'n rhaid i chi ei roi. Gallwch wneud hyn ar-lein, trwy e-bost neu ffacs – gan ddefnyddio'r manylion cysylltu uchod. Neu gallwch alw'r **Tîm Symudiadau Pysgod ar 01480 4839688.**

Os ydych yn gweithredu heb ganiatâd, rydych yn wynebu cael eich **erlyn** a chofnod troseddau, gyda dirwy o hyd at £2,500.

4 Cofrestrwch eich pysgodfa

Ers Awst 2009, rhaid i berchnogion pysgodfeydd gofrestru eu pysgodfeydd gyda'r Ganolfan dros yr amgylchedd, pysgodfeydd a gwyddoniaeth acwafeithrin (Cefas) o dan y Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dŵr.

Cyflwynwyd y rheoliadau er mwyn cynnal y safonau uchel o iechyd pysgod yn y DU. Mae cofrestru'n weithdrefn unwaith ac am byth ac nid oes ffi.

Ni fyddwn yn gallu symud ymlaen â'ch cais i symud pysgod, ni waeth os yw ar gyfer eu cyflwyno neu eu tynnu, os na chofrestrwyd eich pysgodfa.

Gallwch ganfod gwybodaeth bellach a ffurflen gais (RW1) yn **www.efishbusiness.co.uk/registration/fishery-registration.asp**

Mae cofrestru'n helpu Cefas i reoli ymlediad clefydau pysgod difrifol.

5 Peryglon stocio

Gall stocio ddod â llawer o fanteision i bysgodfa, gan gynnwys ychwanegu rhywogaethau newydd a chynyddu dalfeydd pysgotwyr. Fodd bynnag, nid yw heb ei beryglon. Gall stocio gwael achosi niwed hirdymor.

Mae'n haws o lawer i atal problemau rhag digwydd na'u cywiro wedyn. Deallwch y risgiau a gwnewch bopeth y gallwch i'w lleihau.

Y prif beryglon yw:

- eich bod yn cyflwyno clefydau a pharasitiaid newydd;
- nad yw'r pysgod yn ffynnu;
- mae'r cynnydd sydyn yn gwneud drwg i ecoleg y dŵr.

Gall symudiadau anaddas o bysgod wneud niwed i berfformiad pysgodfa neu achosi i bysgod farw. Gall y ddau fod â goblygiadau ariannol pwysig i'ch pysgodfa.

Gwarchodwch eich pysgodfa

Nid stocio yw'r unig ffordd o gynyddu dalfeydd pysgotwyr. Er enghraifft, os ydych yn gwella'r cynefin silio, bydd hyn yn gwella dalfeydd yn y tymor hir. Gofynnwch inni am gyngor – rydym ni'n arbenigwyr ac mae ein cyngor AM DDIM.

Sicrhewch fod digon o le i'ch pysgod newydd. A yw eich pysgod gwreiddiol yn tyfu? Cofiwch – os yw eich dŵr wedi'i stocio'n ormodol mae'n wir i ddweud y gallai dalfeydd pysgotwyr ostwng fel bod y pysgod yn mynd yn llai iach.

Mae'n werth chweil cadw cofnodion da oherwydd bydd hyn yn eich helpu i wneud penderfyniadau doeth ynghylch rheoli'r bysgodfa yn y dyfodol.

Os ydych yn dymuno ychwanegu rhywogaeth newydd, sicrhewch na fydd yn gwneud niwed i'r pysgod sydd yno eisoes. A yw'r dŵr yn addas? Pam nad yw'r rhywogaeth honno yno eisoes? A geisiwyd ei stocio o'r blaen, ond nid oedd hynny'n llwyddiant?

Canfyddwch gyflenwr pysgod rydych yn hapus ag ef ac yn gallu ymddiried ynddo. Gall pysgod graenus leihau'r perygl o stocio'n fawr iawn. Gweler adran 7 am fwy o gyngor.

Bydd cyflenwr da hefyd yn eich cynghori ynghylch yr amser gorau i gyflwyno pysgod. Argymhellwn eich bod yn stocio pysgod bras dim ond rhwng Hydref a Mawrth.

A yw'r dŵr o'ch pysgodfa yn llifo i mewn i safle arall? A yw eich pysgodfa yn y gorlifdir? Os mai 'ydi' yw'r ateb, bydd angen gwiriad iechyd dilys cyn i ni gytuno i chi stocio (gweler adran 6 am fwy o wybodaeth).

Mae bob amser yn syniad da i ofyn am wiriad iechyd beth bynnag. Ni all unrhyw wiriad iechyd roi sicrwydd llwyr fod pysgod sy'n cael eu stocio yn rhydd o glefydau neu barasitiaid, ond dyma'r warchodaeth orau gallwch ei chael wrth stocio.

Gall pysgod addurnol ychwanegu gwerth newydd-deb. Fodd bynnag mae'r peryglon o glefydau yn uwch ac mae rhai rhywogaethau yn dueddol o ddioddef problemau iechyd. Ni ddylech fyth stocio pysgod addurnol neu bysgod diangen o byllau gerddi.

Ychwanegwch bysgod yn raddol. Gall ychwanegu niferoedd lawer ar y tro wneud drwg i ecoleg y dŵr, gan achosi problemau gydag ansawdd dŵr a chynefin.

Gall rheoli pysgodfeydd yn wael arwain at farwolaethau lawer o bysgod

Bydd cadw cofnodion da yn eich helpu i ddod i benderfyniadau da.

6 Gwiriadau iechyd ar gyfer pysgod

Nid yw pob symudiad pysgod angen gwiriad iechyd, ond gall fod er eich mantais i drefnu i wneud un beth bynnag. Os ydych yn prynu pysgod wedi'u heintio, yna rydych yn rhoi eich pysgodfa gyfan mewn perygl.

Gwiriadau gorfodol

A yw'r dŵr o'ch pysgodfa yn llifo i mewn i safle arall? A yw yn y gorlifdir? Os felly, rhaid i chi wirio iechyd y pysgod rydych yn dymuno eu cyflwyno. Gall clefydau ymledu'n gyflym o safleoedd o'r fath. Ni fyddwn yn cymeradwyo stocio tan y canfuwyd bod y pysgod yn iach.

Gelwir y gwiriadau gorfodol hyn yn aml yn 'wiriadau iechyd Adran 30'.

Pwy all wneud gwiriad iechyd?

Gall y gwiriadau gael eu gwneud yn unig gan un o'r ymgynghorwyr iechyd pysgod cymeradwy a restrir gyda'r pecyn hwn. Cafodd yr ymgynghorwyr hyn eu hardystio gan y Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd.

Os ydych yn gwybod bod angen gwiriad iechyd arnoch, mae'n gall i gysylltu ag ymgynghorydd mewn digon o amser o flaen llaw – gallant fod yn brysur dros ben ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Gwiriad iechyd pysgod ar waith

What is involved?

Cyflwynir sampl o bysgod i'w dyrannu, er mwyn sefydlu p'un ai yw'r pysgod yn cario clefydau penodol neu barasitiaid risg-uchel (a elwir weithiau'n barasitiaid 'dosbarth 2').

Rhaid i'r sampl fod yn gynrychioliadol o'r pysgod rydych yn dymuno eu cyflwyno. Bydd rhai parasitiaid yn heintio rhywogaethau arbennig o bysgod yn unig neu mae'n well ganddynt feintiau penodol o'r rhywogaethau hynny. Oherwydd hyn, mae'r rheolau'n llym iawn mewn perthynas â nifer, maint a rhywogaeth y pysgod mewn sampl. Bwriad hyn yw sicrhau fod tebygrwydd derbyniol o ganfod problem.

Bydd eich ymgynghorydd iechyd pysgod yn egluro'n union beth sy'n ofynnol. Gall y Tîm Symudiadau Pysgod hefyd ddarparu gwybodaeth fanylach ar samplau gwirio iechyd. Galwch nhw ar **01480 483968.**

Am faint o amser mae gwiriad iechyd yn ddilys?

Mae gwiriad iechyd ar gyfer pysgod bras yn ddilys am 6 mis. Mae gwiriad iechyd ar gyfer brithyllod ac eogiaid wedi'u ffermio yn ddilys am 12 mis.

Carp gyda namau

7 Ble i brynu pysgod

Gofynnwch o gwmpas y lle. Ni allwn ni gymeradwyo cyflenwr, ond bydd pysgodfeydd lleol yn gallu dweud wrthych gan bwy maent hwy wedi prynu pysgod a ph'un ai oeddent yn hapus â'r gwasanaeth ac ansawdd y pysgod. Os ydych yn dewis cyflenwr a restrir yn y wasg bysgota neu mewn hysbysebion eraill, gofynnwch iddynt ddarparu geirdaon – a'u gwirio.

Mae prynu pysgod o un tarddle yn arfer da a gall leihau'r perygl o gyflwyno clefydau. Os ceir problem, bydd hefyd yn fwy eglur gyda phwy y dylech siarad.

Yn ogystal, mae pysgod a dyfir mewn ffermydd pysgod yn llai tebygol o fod â chlefyd na'r rheiny a gymerir o bysgodfeydd eraill. Bydd prynu pysgod wedi'u ffermio yn helpu i warchod eich pysgodfa.

Byddwch yn brynwr pysgod doeth

Bydd y mwyafrif helaeth o gyflenwyr pysgod yn darparu pysgod iach, cyngor da a gwasanaeth da ar eich cyfer. Ond ceir nifer fach o dwyllwyr masnach bob amser. Cofiwch:

- Peidiwch fyth â phrynu gan bobl sy'n dod atoch chi yn y lle cyntaf. Byddwch yn ofalus o fargeinion rhy rhad a chyflenwyr sydd eisiau osgoi gwaith papur.
- Os yw bargen yn swnio'n rhy dda i fod yn wir, mwy na thebyg dyna fel y mae.
- Prynwch bysgod yn unig rydych eu hangen ar gyfer eich cynlluniau hirdymor. Peidiwch â chael eu temtio gan gynigion neu fargeinion.
- Sicrhewch eich bod yno wastad pan gaiff y pysgod eu stocio.
- Peidiwch â derbyn pysgod o ansawdd gwael. Problem y cyflenwr ydynt, nid eich problem chi.
- Peidiwch fyth â derbyn pysgod nad oeddent yn yr archeb wreiddiol. Mae'n bosibl nad ydynt wedi'u cwmpasu gan eich caniatâd.

Cynhwysir rhestrau o gyflenwyr pysgod a brithyll gyda'r pecyn hwn. Mae hyn er gwybodaeth yn unig. Nid ydym yn cymeradwyo cyflenwyr nac yn gwarantu eu gwaith. Gallwch ofyn am gopi diweddar o'r rhestr hon trwy alw ein **tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 08708 506 506.**

8 Rhagor o gyfarwyddyd a gwybodaeth

Mae'n gall i wybod sut i gadw'ch pysgod yn iach – ac i fod yn ymwybodol o beth fyddai'n digwydd petai eich pysgod yn mynd yn sâl neu ddechrau marw.

Gallwch lawrlwytho nifer o gyhoeddiadau defnyddiol yn **www.efishbusiness.co.uk/formsandguides/** neu gysylltu â'r **Tîm Symudiadau Pysgod ar 01480 483968.** Mae'r taflenni hyn yn cynnwys:

Cadw llygad ar agor am glefyd pysgod
Yn egluro sut i adnabod yr arwyddion cyntaf o glefyd pysgod – er mwyn i chi fedru gweithredu'n gyflym a helpu i atal pysgod rhag marw. Pam ei bod yn bwysig i chi wirio iechyd eich pysgod yn rheolaidd.

Sut i reoli cynefin eich pysgodfa
Yn egluro sut i ddefnyddio cynefin er mwyn gwarchod iechyd eich pysgod.

Arweiniad i ansawdd dŵr
Ni all pysgod fyw heb ddŵr o ansawdd da. Yn egluro beth sydd angen i chi gadw llygad ar agor amdano a sut i osgoi problemau.

Sut i reoli dwysedd stocio pysgod
Mae pob pysgodfa'n wahanol a gall ddal niferoedd amrywiol o bysgod. Fodd bynnag, mwya'i gyd y pysgod sydd gennych, mwya'i gyd y perygl o glefyd. Yn egluro sut i leihau'r perygl o glefydau pan fod gennych ddwysedd stoc uchel.

Cyfarwyddyd ynghylch stocio eich pysgodfa
Yn rhychwantu peryglon stocio, yn gosod allan y caniatadau rydych eu hangen, ac yn cynnig cyngor ynghylch sut i stocio'n llwyddiannus.

Arweiniad i fioddiogelwch pysgodfeydd
Gall clefydau ymledu'n gyflym. Mae'r ddalen ffeithiau hon yn darparu awgrymiadau ynghylch y dulliau gorau o gadw clefydau allan o'ch pysgodfa a chadw eich pysgod yn iach.

Beth i'w wneud os yw eich pysgod yn marw
Canllaw gam wrth gam ynghylch beth i'w wneud os yw pysgod yn dechrau marw yn eich pysgodfa.

Bywyd ar ôl marwolaethau llawer o bysgod
Beth i'w wneud pan nad yw'r pysgod yn marw mwyach. Sut i'w atal rhag digwydd yr eildro.

9 Diheintiwch eich offer

Rhaid i chi lanhau a diheintio eich offer pysgota'n drylwyr. Mae'n hawdd iawn i ledaenu clefydau os nad ydych yn gwneud hyn.

Mae nifer o ddulliau o ddiheintio eich offer. Y cam cyntaf bob amser yw tynnu'r holl laid a defnydd planhigol.

Dulliau diheintio

Sychu yn yr haul

Sychwch eich offer yn drylwyr yn yr haul am o leiaf 48 awr – o ddewis yn llygad yr haul. Dyma'r dull mwyaf diogel ac effeithiol. Sicrhewch eich bod yn awyru pob wyneb tan fod yr offer yn hollol sych.

Os nad yw sychu yn yr haul yn ymarferol, defnyddiwch ddiheintyddion cemegol.

Diheintyddion cemegol

1. Trochwch neu chwistrellwch yr offer gyda'r diheintydd a ddewiswyd. Gadewch am o leiaf 10 i 15 munud, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
2. Streliwch y diheintydd ymaith gyda digon o ddŵr.
3. Cofiwch waredu'r dŵr gwastraff yn gall. Peidiwch â gadael iddo wneud drwg i'r amgylchedd. **Peidiwch fyth â'i arllwys i mewn i ddŵr sy'n cynn-wys pysgod neu fywyd dyfrol arall.**
4. Gall diheintyddion gynnwys cemegolion peryglus. Rhaid i chi ddilyn y labeli cynnyrch a chyngor y gwneuthurwr. Gwisgwch ddillad gwarchodol wrth wanhau'r diheintyddion.

Pa fathau o ddiheintydd y gellir eu defnyddio?

Iodophors – mae'r cynhyrchion hyn a seilir ar ïodin yn cynnwys Iosan CCT, Deosan Iodophor Udderwash a FAM® 30.

Mae iodophors yn diraddio'n gyflym mewn golau haul: storiwch nhw mewn lle tywyll. Dylai iodophors fod yn lliw brown tywyll. Unwaith ei fod yn colli'r lliw hwn, ni fydd yn gweithio'n iawn wedi hynny ac mae angen i chi ei adnewyddu.

Mae'r gwanhad yn amrywio o un cynnyrch i'r llall: dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Virkon ® Aquatic – ar gael ar ffurf powdwr a thabled. Cymysgwch â dŵr i doddiant pinc, un y cant. Bydd y toddiant yn dal i fod yn weithredol am oddeutu bum diwrnod. Cadwch allan o lygad yr haul.

Am ragor o gyngor a gwybodaeth galwch Wasanaethau Technegol Pysgodfeydd (Iechyd, Heneiddio a Rhywogaethau Pysgod) ar **01480 483802** neu anfonwch e-bost i **fish.health@environment-agency.gov.uk**

10 Mae pysgod anfrodorol angen trwydded arbennig

Mae angen trwydded ILFA arnoch (Deddf Mewnforio Pysgod Byw) er mwyn dal, cadw neu ryddhau'r rhan fwyaf o rywogaethau anfrodorol o bysgod. Gwiriwch pa bysgod a restrir yn **www.efishbusiness.co.uk**

Mae trwyddedau ILFA am ddim ond rhaid bod gennych y drwydded **cyn** i chi brynu neu gyflwyno'r pysgod.

Pam trwydded arbennig?

Gall presenoldeb ac ymlediad pysgod anfrodorol gael effeithiau trychinebus a phellgyrhaeddol ar y pysgod, anifeiliaid a phlanhigion yn ein hafonydd a'n llynnoedd. Gall pysgod anfrodorol gystadlu â physgod brodorol am gynefin a bwyd. Gallant gyflwyno, yn ogystal, clefydau neu barasitiaid newydd nad oes gan ein rhywogaethau brodorol y gallu i'w gwrthsefyll.

Gall y problemau fod yn amhosibl i'w cywiro – felly mae'n hynod bwysig i'w hosgoi yn y lle cyntaf.

Gwneud cais am drwydded ILFA

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais yn **www.efishbusiness.co.uk/formsandguides/ILFA1.PDF** neu alw'r **Tîm Symudiadau Pysgod ar 01480 483 968**.

Gall gymryd hyd at ddeufis i Cefas (Canolfan dros yr amgylchedd, pysgodfeydd a gwyddoniaeth acwafeithrin) brosesu cais. Mae Cefas yn ymgynghori â chyrff statudol eraill sy'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod a naill ai Natural England neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Gall Cefas wrthod rhoi trwydded os ydynt yn penderfynu fod cadw neu ryddhau'r pysgod yn anaddas neu'n fygythiad posibl i fywyd gwyllt brodorol. Mae gan eu gwefan – **www.efishbusiness.co.uk** – fwy o wybodaeth ynghylch y meini prawf maent yn eu defnyddio.

Gall trwydded fod ag amodau bydd rhaid i chi gydymffurfio â nhw, fel diogelwch y safle, cofnodion o symudiadau, a gosod a chynnal a chadw sgriniau ar allfeydd.

Os nad ydych yn cydymffurfio â thelerau eich caniatâd, gallwch golli'r drwydded ac wynebu cael eich erlyn. Y gosb uchaf yw £2,500. Gall pysgod a stociwyd yn anghyfreithlon gael eu tynnu allan a'u dinistrio.

Er mwyn canfod mwy ynghylch stocio pysgod anfrodorol, mae croeso i chi alw ein **tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 07808 506 506** a gofyn am eich swyddog pysgodfeydd lleol.

Cathbysgodyn Wels

Carp pen mawr

11 Gwarchod y brithyll brown gwyllt

Mae rheolau newydd yn gwarchod brithyllod brown gwyllt. O 2015 byddwch yn gallu stocio dim ond:

- brithyll brown anffrwythlon benywaidd i gyd (triploidau) – dyma'r dewis tebygol ar gyfer cynnal pysgota;
- brithyll brown o raglenni bridio sy'n defnyddio stoc magu a gafwyd yn lleol.

Yr unig eithriad yw os ydych yn stocio i mewn i ddyfroedd sydd bron wedi'u hamgáu'n llwyr – **ac** nid oes fawr ddim brithyllod brown naturiol yn bridio yno.

Rydym yn cyflwyno'r rheolau newydd yn raddol i roi amser i bysgotwyr, pysgodfeydd a ffermydd pysgod ymaddasu. Hoffem ni haneru stocio brithyll fferm ffrwythlon erbyn 2013.

Pam y newid?

Mae pysgotwyr angen pysgod. Bob blwyddyn caiff mwy na 700,000 o frithyllod brown ffrwythlon wedi'u ffermio eu stocio i mewn i afonydd Cymru a Lloegr.

Mae brithyllod wedi'u ffermio yn ddof ac, yn enetig, yn debyg iawn i'w gilydd. O ganlyniad maent yn llai tebygol o oroesi a bridio yn y gwyllt.

Mewn cyferbyniaeth, mae'r ceinciau gwahanol o frithyllod brown brodorol yn amrywiol yn enetig. Wedi'u mireinio i ffynnu yn ein hafonydd, maent yn fwy tebygol o ymdopi â heriau amgylcheddol fel newid yn yr hinsawdd.

Dangosodd astudiaethau gwyddonol ar draws Ewrop fod brithyllod brown gwyllt mewn perygl os ydynt yn rhyngfridio â brithyllod wedi'u ffermio. Gall unrhyw epil ei chael yn anos i oroesi, bridio ac ymaddasu.

Triploidau

Er bod triploidau yn costio rhwng 10 a 15 y cant yn fwy na brithyllod ffrwythlon wedi'u ffermio, ceir rhywfaint o dystiolaeth y medrai fod angen i chi stocio llai ohonynt. Mae triploidau yn ei chael yn haws i oroesi'r gaeaf ac maent yn ymddangos yn llai tebygol o symud o fan i fan.

Gallwch gaffael rhagor o wybodaeth yn ein *Strategaeth Genedlaethol Brithyll a Phenllwyd: Rheolau newydd er mwyn gwarchod brithyllod brown gwyllt.* Mae hon ar gael i'w lawrlwytho. Ewch i **www.environment-agency.gov.uk** a theipio 'strategaeth genedlaethol brithyll a phenllwyd' i mewn i'r blwch chwiliad. Neu galwch ein **tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 08708 506 506.**

Brithyll brown gwyllt

12 Pwy i gysylltu â nhw

Am gyngor cyffredinol pellach, galwch ein Tîm Symudiadau Pysgod:

Post: Asiantaeth yr Amgylchedd
Bromholme Lane
Brampton
Huntingdon
Cambridgeshire
PE28 4NE

Ffôn: 01480 483968

Ffacs: 01480 483955
or 01480 483026

E-bost: fmapplications@environment-agency.gov.uk

Am gyngor penodol ynghylch symudiad pysgod arfaethedig, mae croeso i chi alw **Gwasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506** a gofyn am gael siarad â'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol.

A hoffech gael gwybod mwy am Asiantaeth yr Amgylchedd neu am eich amgylchedd?

Yna ffoniwch ni ar

08708 506 506 (Llun–Gwener 8–6)

e-bost

enquiries@environment-agency.gov.uk

ymwelwch â'n gwefan

www.environment-agency.gov.uk

llinell argyfwng 0800 80 70 60 (24 awr)
llinell llifogydd 0845 988 1188

*Amcangyfrif o gost galwadau: 8c a 6c y funud (llinell tir safonol).
Nodwch y bydd prisiau gwahanol ddarparwyr gwasanaethau ffôn yn amrywio.

Yr amgylchedd yn gyntaf: argreffir yr adroddiad hwn ar bapur wedi ei wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd eisoes. Defnyddir isgynhyrchion gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrtaith, gwneud sment a chynhyrchu trydan.

GEHO0310BSEV-B-E